

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/11/2022 7:00yh – O Bell

Ian Goronwy Williams Thomas Victor Jones Alaw Ceris Hywel James Sinclair Evans
(Cad)
Gwenllian Davenport Alan Harper-Smith Greta Hughes Ann L. Williams (Cyfieithydd)
Hughes
Pat Humphreys (Clerc)

Gofynnodd y cadeirydd i bawb sydd eisiau cyfrannu yna iddynt roi eu llaw i fyny a pan fydd angen pleidleisio i bawb wneud drwy ddangos llaw.

Gan fod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi anfon ymddiheuriadau mae angen penodi Cadeirydd i gadeirio am y noson. Cynigiodd Ian Goronwy Williams gadeirio a derbyniodd bawb y cynnig.

1. Ymddiheuriadau

John Brinley Jones, David Andrew Parry a William Roger Jones.

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Dim.

3. Cofnodion Pwyllgor 31/10/2022

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

Cynnig: Thomas Victor Jones Eilio: Gwenllian Davenport Hughes

Materion yn codi o'r cofnodion:

Fe aeth y cadeirydd drwy gofnodion 31/10/2022 ac nid oedd dim yn codi.

4. Unrhyw Fater Brys

Stage Gwaith Ty'n Tywyn

Cafwyd esboniad o'r hyn sydd wedi digwydd gan Greta Hughes. Mae Adran Forwrol Cyngor Gwynedd wedi gofyn i gontractwyr lleol i dynnu polion yr hen stage waith ar Lan y Môr Ty'n Tywyn heb ddim math o ymgynghoriad hefo neb. Mae nifer o bobol lleol yn cynnwys y cynghorydd lleol a cynghorwyr y Cyngor Cymuned wedi cysylltu hefo'r Adran Forwrol yn gofyn am esboniad a'r ymateb a gafwyd oedd eu bod yn pery risc i ddefnyddwyr y traeth a gan mai Cyngor Gwynedd sydd hefo cyfrifoldeb dros ddiogelu defnyddwyr y safle maent am baratoi asesiad risc. Mae yna ddipyn o gonsyrn yn lleol am hyn a'r teimlad ydi fod pawb eisiau cadw'r polion gan eu bod yn hanesyddol i'r ardal ac yn rhan o'n etifeddiaeth felly mae hi'n cynnig ein bod yn ysgrifennu llythyr cryf i Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu tynnu'r polion ac yn gofyn am sicrwydd na fydd yn polion yn cael eu tynnu heb unrhyw ymgynghoriad pellach. Mae Cyngor Gwynedd hefyd wedi dweud mewn ebost os ydi'r Cyngor Cymuned yn gofyn iddynt eu cadw yna fe fydd rhaid i'r Cyngor Cymuned fod yn gyfrifol os bydd unrhyw beth yn digwydd ond nid yw Greta Hughes yn meddwl fod ganddynt unrhyw hawl i roi y fath gyfrifoldeb ar y Cyngor Cymuned o gwbl. Mae Ian Goronwy Williams yn cytuno'n llwyr ac yn methu deallt sut fod Cyngor Gwynedd yn meddwl fod ganddynt yr hawl i wneud hyn heb ymgynghori hefo neb. Ateggodd Thomas Victor Jones ei fod ef hefyd yn cydfynd ac wedi

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/11/2022 7:00yh – O Bell

dychryn hefo beth sydd wedi digwydd ac y dylai'r Cyngor Cymuned ddal eu tir. Dywedodd Hywel James Sinclair Evans ei fod yn cytuno ac hefyd yn dweud bod rheolaeth Lan y Môr Ty'n Tywyn yn warthus yn ystod yr haf gyda nifer fawr o'r cychod modur ar y traeth, maent yn rhu agos i'r lan, yn swnllyd a rhai ohonynt yn colli olew ar draeth sydd o fewn SODdGA (SSSI). Cytunodd Gwenllian Davenport Hughes hefo Hywel James Sinclair Evans ac hefo gyrru llythyr i Cyngor Gwynedd ond fe fydd rhaid paratoi ymgyrch i ymladd hyn ar gyfer y dyfodol. Mae Alan Harper-Smith yn cytuno hefyd ac yn dweud fod y cynghorydd lleol yn delio gyda'r mater ac yn diolch i Greta Hughes am adael iddo wybod beth oedd yn mynd ymlaen. Mae Alaw Ceris yn cytuno hefo gweddill yr aelodau ac yn methu dychmygu Ty'n Tywyn heb y polion ac yn cytuno fod yna lot o waith cwffio yn erbyn hyn.

Penderfyniad: Ysgrifennu llythyr cryf i Adran Forwrol Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu tynnu'r polion ac yna dechrau ymgyrch i sicrhau na fydd hyn yn digwydd.

Cynnig: Greta Hughes Eilio: Ian Goronwy Williams

Ambiwllans Awyr

Dywedodd Thomas Victor Jones bod cyfarfod wedi bod yn ysgol Glan y Môr nos Wener diwethaf ynglŷn â symud yr ambiwlans awyr o Dinas Dinlle ac o'r Trallwyn a'i lleoli yn Gogledd-Ddwyrain Cymru. Fe fydd ymgyngoriad ar y mater yma yn cychwyn ar y 6^{ed} o Ragfyr ac mae'n gofyn i bawb lenwi'r ymgyngoriad i fewn er mwyn sicrhau dyfodol y gwasanaeth yn ein hardal.

5. Adolygu yr Asesiad Risc

Mae'r clerc wedi gwneud y newidiadau a gytunwyd y mis diwethaf yn y rhan 'Cyffredinol' ac mae'r aelodau yn hapus hefo'r newidiadau. 'Roedd y Cadeirydd i fod i gael gwybodaeth ar fonitro'r cerrig beddi yn y rhan 'Mynwent' felly gan nad yw yma heno fe fydd rhaid rhoi'r mater ar agenda mis Ionawr.

6. Llwybrau

Adolygu Tendr Torri Llwybrau

Agenda mis Ionawr.

Ebost Iwan Hughes – trosi enwau Cymraeg

Derbyniwyd ebost gan Iwan Hughes yn tynnu sylw'r Cyngor Cymuned at y ffaith fod 'Trwy'r Nant' wedi cael ei drosi i'r Saesneg yn y cofnodion ac yn gofyn i ni beidio a trosi enwau Cymraeg i'r Saesneg. Mae'r clerc wedi egluro wrtho nad oedd y cyfieithydd yn gwybod am yr ardal nac yn gwybod mai enw lle oedd o ac mae'r cyfieithydd wedi gyrru ebost yn dweud ei bod yn cytuno hefo'r hyn y mae Iwan Hughes yn ei ddweud ac yn gofyn os oes modd iddi anfon y cofnodion Saesneg i un o'r aelodau iddynt gael mynd drwyddynt er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto. Dywedodd Greta Hughes ei bod yn fodlon i'r cyfieithydd eu hanfon ati hi cyn iddynt gael eu gyrru i'r aelodau hefo'r agenda.

7. Y Fynwent

Adolygu Ffioedd Claddu

Agenda mis Ionawr.

Bedd Mr & Mrs Smyth

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/11/2022 7:00yh – O Bell

Mae Greta Hughes wedi sylwi fod brigau wedi disgyn ar fedd Mr & Mrs Smyth ac wedi malu'r garreg ac felly, yn ôl yr arfer pan nad oes teulu i edrych ar ôl y bedd, mae hi wedi cael ei roi i orwedd ar y bedd. Mae yna hefyd ddipyn o olwg o gwmpas y bedd ac mae hi'n teimlo y dylai'r Cyngor Cymuned glirio o'i gwmpas a trwsio'r garreg fedd a'i rhoi yn ôl yn ei lle. Gofynnodd Thomas Victor Jones faint o drwsio sydd ei angen arni? Ac atebodd Greta Hughes na trwsio'r peg haearn sydd yn dal y garreg a'i rhoi nôl yn ei lle, tydi'r garreg ddim wedi malu mae hi'n dal yn gyfa. Mae Alaw ceris yn cytuno hefo Greta Hughes ac yn teimlo bod angen gwneud rhywbeth. Er ei fod yn cytuno, gofynnodd Hywel James Sinclair Evans os yw hyn yn gosod cynsail ac y bydd yna orfodaeth ar y Cyngor Cymuned i drwsio bob bedd sydd heb deulu i edrych ar ei ôl ac wedi malu ac mae Thomas Vicgtor Jones yn cydfynd hefo hynny. Eglurodd Greta Hughes mai'r brigyn sydd wedi achosi'r garreg i ddisgyn y tro yma felly ei bod yn ddyletswydd ar y Cyngor Cymuned, sydd a chyfrifoldeb am y fynwent, i'w thrwsio.

Penderfyniad: Y clerch i gysylltu hefo Hefin Underwood i gael dyfynbris i drwsio'r garreg fedd a gofyn i Roger Fisher i fynd i glirio o gwmpas y bedd. Unwaith y bydd y clerch wedi derbyn dyfynbris ei anfon ymlaen i'r aelodau i wneud penderfyniad cyn gynted a phosibl.

Cynnig: Greta Hughes Eilio: Thomas Victor Jones

Dyfynbris trwsio'r wal – Selwyn Pritchard

Mae ebost wedi ei dderbyn gan y cadeirydd am ei fod yn absennol heno ac fe wnaeth Ian Goronwy Williams ei ddarllen allan i bawb, mae'n dweud nad yw'n hapus fod y Cyngor Cymuned yn talu am drwsio'r wal i gyd gan fod perchnogion Tall Trees wedi clirio eiddew oddi ar y wal sydd wedi gwanhau'r wal felly fe ddylient hwy gyfrannu rhywbeth at y gost.

Mae dyfynbris wedi ei dderbyn gan un Saer Maen sef Selwyn Pritchard i drwsio wal y fynwent ond gan nad yw'r cadeirydd wedi cyfarfod hefo'r Seiri Maen i gyd eto fe fydd yn rhaid aros hyd nes y bydd y dyfynbrisiau i gyd i mewn cyn gwneud penderfyniad felly agenda mis Ionawr.

Cyfarfod rhwng Ieuan Ellis Owen, Greta Hughes a John Brinley Jones

Gofynnodd Ian Goronwy Williams os oedd cyfarfod wedi bod rhwng Ieuan Ellis Owen, Greta Hughes a John Brinley Jones i drafod y gwahaniaeth mewn perchogaeth tir rhwng cynllun y Gofrestrfa Tir a'r cynllun a gafodd ei roi i fewn gyda'r cais cynllunio nôl yn 2010 ar gyfer y fynwent newydd a dywedodd y clerch ei bod wedi siarad hefo Ieuan Ellis Owen a'i fod yn gwrthod cyfarfod hefo nhw. Mae'r cynllun iawn wedi cael ei gofrestru ers y cychwyn pan drosglwyddwyd y tir i berchnogaeth y Cyngor Cymuned gyda'r Gofrestrfa Tir ac felly nid yw hyn ddim byd i wneud hefo fo. Cafwyd cynnig gan Hywel James Sinclair Evans a Ian Goronwy Williams bod Greta Hughes a John Brinley Jones yn cyfarfod hefo Bryn Martin sef y cyfreithiwr oedd yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned pan gafodd y tir ei drosglwyddo iddynt i gael eglurhad o pam na chafodd y cynllun yma ei ddangos i'r aelodau yr amser hynny fel eu bod yn gwybod yn iawn faint o dir yr oeddent berchen. Cytunodd bawb ac fe fydd y clerch yn cysylltu hefo swyddfa Bryn Martin i drefnu cyfarfod.

8. Cae chwarae

Cais AHNE

Cafwyd ebost gan Alaw Ceris yn amgau llythyr yr oedd wedi ei baratoi ymlaen llaw yn gofyn os yw'r aelodau yn hapus iddi anfon y llythyr ar ran y Cyngor Cymuned yn cefnogi eu cais am grant gan yr AHNE i drwsio'r ffens yn y cae chwarae. Atebodd Gwenllian Davenport Hughes y byddai'n

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/11/2022 7:00yh – O Bell

syniad i ychwanegu ffeithiau sydd yn ateb meini prawf y grant a cytunodd Alaw Ceris i wneud hynny. Mae manylion yr archwiliad diweddaraf o'r cae chwarae yn cael ei gynnwys hefyd a gofynnodd os oedd yna astudiaeth o pentref Llanbedrog wedi cael ei wneud y byddai yn falch o dderbyn unrhyw wybodaeth amdano i gryfhau'r cais am grant. Dywedodd Thomas Victor Jones bod yna archwiliad ar angen tai fforddiadwy wedi cael ei wneud a cadarnhaodd Hywel James Sinclair Evans mai Grŵp Cynefin oedd yn gyfrifol am ei wneud ac y byddai'r dogfennau yn dal ganddynt. Cafwyd manylion pellach gan yr aelodau am y pentref ac mae Alaw Ceris wedi eu nodi i lawr. Gofynnodd Alaw Ceris i'r aelodau os ydynt yn dod ar draws gwaith papur ar gyfer y cae chwarae yn y Neuadd pan maent yn sefydlu yr is-bwyllgor newydd yna i adael iddi wybod a dywedodd Thomas Victor Jones fod yna ddipyn o waith papur yn y cwpwrdd haearn yn y Neuadd. Mae'r cae chwarae yn dal i dderbyn pleidleisiau ar gyfer tocynnau Asda ac mae hi'n gofyn i bawb bleidleisio ac mae noson garolau wedi cael ei drefnu yn Plas Glyn y Weddw ar y 20^{fed} o Ragfyr i godi arian tuag at y cae chwarae ac Ysgol Llanbedrog.

9. Neuadd y Pentref

Ail-sefydlu is-bwyllgor penodol ar gyfer y neuadd.

Nid oes dim datblygiad ers y pwyllgor diwethaf ond mae cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer nos Fercher yr 30^{ain} o Dachwedd pan fydd swyddogion yn cael eu ethol ac yna symud ymlaen i edrych ar gyfansoddiad ac asesiad risc.

Codi prisiau llogi'r neuadd.

Agenda mis Ionawr.

Taliadau wedi eu cymeradwyo

Cyflog y Clerc – Pat Humphreys	£416.00
HMRC – PAYE Mis 8	£104.00
Ann Llwyd – Cyfieithydd	£170.00
Rhys Jones – cytundeb torri y cae chwarae a cae Pentra Llan tymor 2022	£1810.00
Cyngor Gwynedd – Gwastraff gardd 2023	£37.00
John Brinley Jones – ad-daliad am y goeden nadolig	£147.00

Taliadau wedi eu Derbyn

Dim.

Ceisiadau Cynllunio

C22/1045/38/LL – Existing Telecommunications Site, Bodwrog Farm, Llanbedrog – Cais llawn i newid polyn/twr 15m presennol gyda pholyn/twr newydd 15m fyddai'n cynnal ffrâm uwchben gan roi uchder o 16m. Gosod 2 antena ar y ffrâm, ail leoli dysgl trawsyriant bresennol ynghyd â datblygiadau cysylltiol.

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 28/11/2022 7:00yh – O Bell

Penderfyniad: Dim Gwrthwynebiad.

Unrhyw gais fydd wedi dod i law erbyn y cyfarfod.

Dim.

Cais am gyfraniad

Dim.

Dywedodd y clerc bod y cadeirydd yn mynd i nôl y goeden nadolig dydd Gwener yr 2^{il} o Ragfyr ac yn gofyn am wirfoddolwyr i heplu ei rhoi i fyny a rhoi'r golau arni dros y penwythnos ond fe fydd yn gyrru ebost i bawb ynglŷn â hyn.

Derbyniwyd ebost gan Lily Usher yn dilyn y cyfarfod a fu rhyngddi ac aelodau y Cyngor Cymuned ynglŷn â sbwriel ar y traeth a maes parcio yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llanbedrog lle mae hi yn diweddarau'r aelodau ar drefniadau casglu sbwriel yn ystod yr haf ac yn cynnig trefnu cyfarfod arall i drafod y mater. Mae Alaw Ceris a Greta Hughes yn teimlo y byddai'n beth da i gadw mewn cysylltiad ynglŷn â'r mater yma a cynigiodd Alan Harper-Smith y byddai'n syniad da cael cyfarfod ar ddechrau'r tymor nesaf sef ym mis Mawrth neu Ebrill 2023 ac mae'r clerc am ebostio hi'n ôl i ddweud hynny.

Er gwybodaeth bu Thomas Victor Jones mewn Cynhadledd Pobol Hŷn Gwynedd yn Plas Tan y Bwlch yr wythnos diwethaf ac 'roedd Gwenllian Davenport Hughes yno hefyd ac 'roedd y ddau yn cytuno ei fod yn ddiwrnod da iawn. Cafwyd sesiynnau gwahanol gan Cynllun Rhannu Cartref Gwynedd, Dimensia Actif Gwynedd, Cynllun Gofal Cartref Gwynedd a Cymorth Costau Byw, fe fydd cynhadledd yn dod i'r ardal yma ddechrau'r flwyddyn felly os oes unrhyw un angen help mae help i gael drwy Cyngor Gwynedd a gofynnodd i bawb basio'r neges ymlaen.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 8.10y.h.